


Rhif 449



tud 11

Tal-y-bont yn Rocio!

Tre Taliesin yn dangos ei hochr! Cofeb genedlaethol yn cael ei throsoglwyddo i 'Hafan' newydd yn Nhre Taliesin.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL	
Maes-y-deri:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	832592
Parsel Henllys:	Karren Roberts	07800 806578
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
	Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl	832028
Eglwysfach/Ffwrnais:	Non Griffiths	(01654) 703635
Rhwydweithiau cymdeithasol:	Ceri Morgan	
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont	832697
Is-gadeirydd:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanygrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams	


Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Ffolderi gwybodaeth gymunedol



Llwyth o daflenni gan fudiadau a grwpiau lleol

Cewch ddod o hyd iddyn nhw ar y silffoedd y Llyfrgell yn Cletwr

www.cletwr.com

Cletwr, Tre'r Ddol, Ceredigion. SY20 8PN

YN EISIAU

Tir i'w brynu yn ardal Machynlleth neu Aberystwyth

1 i 5 erw (0.5 i 2 hectar)

Tir pori nid coetir ar gyfer prosiect garddwriaethol

Cysylltwch â Clo Ward
07748 673829



Morlan

Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

CYFARFOD BLYNYDDOL

Cynhelir cyfarfod blynyddol Canolfan Morlan ar nos Lun, 20 Mai 2019 am 6.00 o'r gloch Croeso cynnes i bawb

morlan.cymru

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996: post@morlan.cymru

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Robat ac Enid. Y dylunydd oedd Tanwen. Diolch iddynt oll. Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Rebecca ac Arthur (rebswilliams@yahoo.com). Y dyddiad cau yw 7 Mehefin a bydd y papur ar werth ar 14 Mehefin.

Dyddiadur

MAI

11 **Bore Coffi:** Cefnogaeth gan Gymheiriaid 10–12 Cletwr **Gweithdy** 'Darganfod Manylder' (Giles W. Bennett) 2.30–4.30 Cletwr

12 **Bethel** 10 a 5.30 Cymanfa Ganu (Bethel Aberystwyth) **Nasareth** Cymanfa Ganu **Rehoboth** Cymanfa Ganu **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 Gwasanaeth Boreol

13 **Sefydliad y Merched** **Eglwysfach** 'Hyfforddi Cŵn yr Heddlu' (David Poole) **Cyfarfod Blynyddol** Cyngor Cymuned Llangynfelyn 7 Llanfach

14 **Tenis Bwrdd** 7 Ystafell Haearn, Eglwysfach

15 **Dawnsio Albanaidd** 7.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach **Lansiad Llyfr** a noson o farddoniaeth (Caroline Clark) 7.30 Cletwr

16 **Tai Chi** 2 Ystafell Haearn, Eglwysfach

18 **Sŵ y Borth** yn Cletwr 10.30–12.30 Cletwr **Dyrannu Pelenni Tylluanod** 11.30–1.30 Cletwr **Archifo'r Pentref** 'Ffotograffiaeth ffôn symudol i bobl ifanc' (Giles W. Bennett) 2.30–4.30 Cletwr

19 **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu **Nasareth** 5 Carwyn Arthur **Rehoboth** 10 Carwyn Arthur **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Hwyrrol Weddi **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 Cymun Bendigaid **Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Hwyrrol Weddi

20 **Merched y Wawr** **Tal-y-bont a'r Cylch** 'Gohebu' (Sara Gibson) **Sefydliad y Merched** Eglwysfach Taith i Erddi Bodnant

23 **Datganiad ar yr organ** gan Tudur Jones FRCO 7 Seion, Stryd Popty, Aberystwyth **Tai Chi** 2 Ystafell Haearn, Eglwysfach

26 **Bethel** 10 Geraint Evans **Nasareth** 5 Wyn Morris **Rehoboth** 5 Bugail **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 Gwasanaeth Boreol

28 **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 'Robert Owen, y Drenwydd' (Colin Laker) 7.30 Llanfach **Tenis Bwrdd** 7 Ystafell Haearn, Eglwysfach

30 **Tai Chi** 2 Ystafell Haearn, Eglwysfach

31 **Sesiwn Nos Wener** 'Talwrn y Beirdd' 8 Y Llew Gwyn

MEHEFIN

2 **Bethel** 11.15 Uno yn Nasareth **Nasareth** 11.15 Bugail **Rehoboth** 11.15 Uno yn Nasareth **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Hwyrrol Weddi **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 **Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaid

3 **Sefydliad y Merched** **Eglwysfach** 'Myfyrio drwy symud' (Heather Williams)

4 **Sefydliad y Merched** **Taliesin** 'Esgidiau' (Emily Davey)

9 **Bethel** 10.00 Uno yn Rehoboth **Rehoboth** 11.15 Bugail **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

16 **Bethel** 11 Gwasanaeth Teulu gyda Chinio Cawl i ddilyn yn y Neuadd Goffa 12–2 Elw tuag at Apêl Madagascar Annibynwyr Cymru **Rehoboth** 5 Bugail **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 **Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Hwyrrol Weddi

Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3–5
Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol' 9.30–10.30

Cydymdeimlad

Ry'n ni'n cydymdeimlo'n fawr â Liz a Richard Spencer, Tŷ Manceinion, Taliesin a gweddill y teulu ar golli Mam Liz yn ddiweddar, yn 91 oed.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Hedydd Mai Phylip, Gwynionydd, Tal-y-bont ac Alun Evans o Goedpoeth ar eu dyweddïad.

Clywsom y newyddion am ddyweddïad Gwyn Jones a Catrin Jones, Ger y Nant, Tal-y-bont. Nid dyweddïad cyffredin mo hwn gan i Gwyn gyflwyno'r fodrwy i Catrin ar gopa'r Wyddfa. Llongyfarchiadau mawr yn wir i chi eich dau.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Bethan Davies Dolcletwr ar golli ei thad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn fawr hefyd â Bob Williams, Penwern sydd wedi colli ei chwaer Dorothy yn ddiweddar.

Genedigaethau

Croeso i Ceri a Dylan Jones sydd wedi ymgartrefu yn Awel y Gors, Tal-y-bont a llongyfarchiadau mawr iddynt ar enedigaeth bachgen bach Tomos Alun, brawd i Osian a Gruffudd. Llongyfarchiadau i Janet Jones Llwynglas ar ddod yn famgu. Bydd y tri bachgen bach yn siwr o gael hwyl fawr gyda'i gilydd.

Mae Gwyndaf a Jano Evans Maesyderi wedi dod yn dadcu a mamgu unwaith eto. Ganwyd Dyfi Wyn, merch fach i Kara a Sam. Mae'n chwaer i Ralffi ac yn wyres i Karen a Lee Jones. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu oll.

Capel Bethel GWILYM TUDUR

Braf oedd gweld capel Bethel yn llawn fore Sul y Pasg. Roedd cynulleidfa dda wedi dod ynghyd i glywed neges bachgen ifanc a'i fryd ar fynd i'r Weinidogaeth. Ar hyn o bryd mae Gwilym Tudur yn fyfyrwr yng ngholeg Rhydychen. Roedd ganddo neges bwrpasol i'r Sul pwysig hwn yn y calendr Criatnogol, ac hefyd air i'r plant oedd yn bresenol. Cafwyd eitemau gan rai o'r gynulleidfa a chroesawyd ef yn gynnes iawn i'n plith.

Pobl a Phethe



Pob Lwc

Pob lwc i Ffion Hicks a Nia Benham o Langynfelyn yn y gystadleuaeth Ddeuawd Offerynol yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd y mis.

Noson o Adloniant

Cafwyd noson o Theatr Cerddorol yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar 18 Ebrill wedi ei drefnu gan adloniant HAKA ac roedd nifer o wynebau lleol cyfarwydd ar y llwyfan. Braf oedd croesawu dau o'r unawdwyr, Sam Ebenezer a Geraint Howard o Dal-y-bont yn ôl adre' i berfformio i ni. Sam oedd yn gyfrifol hefyd am hyfforddi'r plant a'r ieuenctid gyda chymorth Geraint. Roedd pedair o ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont hefyd yn perfformio sef Celsey, Lela, Ellen ac Ariana a Heledd Davies o Ysgol Penglais. Da iawn chi.



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Esther Llwyd Ifan sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 21 oed yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Linda Hicks, Tre'r-ddol ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Mae pawb yn cofio amdani fel cogyddes yn yr ysgol am flynyddoedd.

Llongyfarchiadau i Elliw Dafydd, wres Gwilym ac Ann Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont ar gael ei dewis i gyflwyno'r Aberthged i'r Archdderwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron.

Marathon Llundain

Llongyfarchiadau mawr i Rhian, merch Eirlys a Reg Jones, Eurfan, Tal-y-bont ar gwblhau Marathon Llundain. Mae Rhian yn hen gyfarwydd â rhedeg rasmus marathon ac wedi bod yn rhedeg yn Paris, Berlin, Caerdydd a nifer o rai eraill. Mae yn awr yn byw yn Abertawe, ond mae'n siwr fod rhedeg yn yr ardal hyfryd o gwmpas Tal-y-bont wedi bod yn ysbrydoliaeth iddi.

Croeso

Croeso i Mr Mike Bowe sydd newydd symud i fyw i 2, Dan y Graig, Tal-y-bont.

Gwella

Da deall fod Falma Jones wedi gwella'n ddigon da i adael yr ysbyty a symud yn ôl i Cysgod y Coed, Llanilar.

Penblwydd Arbennig

Dymuniadau gorau i Brigid Rose, Penrow, Bont-goch ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Ysgol Tal-y-bont



Rosie gyda Sioned o Sustrans Cymru



Dysgu am natur



Edith a Hopcyn, Sêr Sgwteri



Garddio



Rhoi cynnig ar daflu gwaywffon



Ar eich marciau!



Chwarae yn yr awyr agored



Tîm Pêl-droed Ysgol Tal-y-bont

Cerdd Fuddugol Eisteddfod yr Ysgol 2019

Seren

Pan mae'r dydd yn cau ei lygaid,
Dihunai'r nos,
A'r seren yn ymddangos,
Fel trysor bach tlos.

Syllaf allan o wydr fy ffenest,
A syfrdanu ar y wledd,
Y sêr yn cyflwyno sioe rhagorol,
Mewn hedd perffaith hedd.

Fy mys yn dilyn fry uwchben,
Fel pòs dot i ddot yn cyffwrdd â'r nen,
Campwaith disglair, sgleiniog a phur,
Ar ganfas gloyw, llachar a chlir.

Disgo o dylwythau,
Yn sboncio a dawnsio,
Yn bachu fy sylw,
Dwi'n ysu i'w gwyllo.

Ond cysgu mae rhaid,
Mi welaf nhw eto.
Trwy wydr fy ffenest,
Byddaf yno!

Dewin Dwl

Eisteddfod yr Ysgol

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn heb os yw ein eisteddfod flynyddol a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa eleni eto. Wedi diwrnod llawn o hwyl a chystadlu brwd, Leri aeth â hi eleni – da iawn chi. Llongyfarchiadau mawr i Hopcyn, Alice, Caoimhe, Amber, Elen Arianna a Hedydd am ennill gwobrau unigol a chlod mawr i Glain am ennill cystadleuaeth y Gadair eleni gyda'i cherdd hyfryd.

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at ddiwrnod llwyddiannus gan gynnwys Capteiniaid y tai, Glain Jones a Carys Joseph (Ceulan) a Rhoswen Evans ac Elen Jenkins (Leri); y beirniaid, Non Evans, Gill Dobson, Myfanwy James, Y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan a Delyth Ifan; y cyfeilydd Falyri Jenkins; Meistr Seremoni'r Cadeirio Vernon Jones; y noddwyr Oriel y Bont, Cletwr a Jewellery House; Pwyllgor y Neuadd Goffa am eu cydweithrediad parod; aelodau gweithgar y Gymdeithas Rieny; y staff am eu hymroddiad i'r ysgol a phawb wnaeth ein cefnogi ar y diwrnod.

Sustrans

Fel rhan o'n gweithgareddau sy'n annog y plant i gyrraedd yr ysgol heb ddefnyddio car, cafodd Rosie wobwr arbennig gan Sioned o Sustrans Cymru am seiclo yr holl ffordd o Fachynlleth i Ysgol Tal-y-bont yn ddiweddar – tipyn o gamp! Llongyfarchiadau i Edith a Hopcyn am fod yn Sêr Sgwteri cyntaf y tymor yma ac enillwyr haeddiannol hefyd.

Ysgol Iach: Gŵyl Aml-sgiliau

Diolch yn fawr i griw Ceredigion Actif am drefnu prynhawn prysur o ddysgu sgiliau chwaraeon yn y Brifysgol. Roedd hi mor braf gweld Dylan ac Elan, cyn-ddisgyblion yr ysgol yn cymryd grwpiau yn ystod y prynhawn bywiog yma!

Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion

Cynhaliwyd noson agoriadol ail Wyl Ddrama Gogledd Ceredigion ar y 1 Mai yn Neuadd Goffa Tal-y-bont a chafwyd gwledd o adloniant gyda thair drama amrywiol. Dathlu doniau lleol ydy calon yr ŵyl mewn gwirionedd a llwyddwyd i wneud hynny gyda pherfformiadau graenus y ddau gwmni lleol.

Agorwyd y noson gyda'r aelodau ifanc lleol sef Cwmni Doli Micstiyrs yn cyflwyno *Adolff* gan Emyr Edwards, drama a ysgrifennwyd yn benodol i Gwmni Licris Olsorts gan yr awdur. Cyflwynwyd y ddrama i'r cwmni ddegawd yn ôl yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala ac o'r diwedd mae'r cwmni wedi llwyddo i'w llwyfannu! Braf oedd gweld chwech o aelodau ifanc y cwmni yn diddanu'r gynulleidfa gyda chyflwyniad hwyliog gyda mwy nag un aelod o'r cast yn chwarae mwy nag un cymeriad a hynny'n hyderus a deheuig. Llongyfarchiadau i'r Cynhyrchydd, Sion Pennant, Bont-goch.

Yr ail gwmni i berfformio oedd Cwmni Licris Olsorts yn cyflwyno *Ni'n Dwy* o waith Nan Lewis gyda Sion Pennant yn cynhyrchu unwaith eto. Dyma ddrama ddirdynol am berthynas gymhleth mam a merch sy'n bodoli ar erchwyn y byd mae'r mwyafrif ohonom ni'n gyfarwydd ag ef. Cafwyd perfformiadau hynod bwerus gan y cast yn arbennig y fam a'r ferch leol Sharon a Gwenllian King, Elgar, Bow Street gan adeiladu'r tensiwn yn gelfydd a gan Sioned Morris. Yn wir gellid fod wedi clywed pin yn cwmpo ar adegau gyda'r gynulleidfa wedi ymgolli'n llwyr yn y perfformiadau.

Cafwyd newid cywair llwyr i gloi'r noson gyda Chwmni Drama'r Sarnau yn cyflwyno'r comedi hwyliog *Y Fainc* o waith yr awdur Emyr Edwards. Roedd y gynulleidfa yn eu dyblau wrth i'r cwmni profiadol yma gyflwyno hanes Les a Doris y pâr priod canol oed a'r ymwelydd annisgwyl â'r fainc.

Arweiniwyd y noson gan Rhian Evans, Glanrafon a diolch i'r pwyllgor am gynnig y cyfle i fwynhau noson wych o ddramâu yn lleol. Llongyfarchiadau i bawb a phob lwc iddynt gyda gweddill taith yr ŵyl.

Pêl-Droed yr Urdd

Daeth y tymor pêl-droed i ben gyda phencampwriaeth yr Urdd ar gaeau Blaendolau.

Bu tîm o'r ysgol yn cystadlu'n frwd unwaith eto yn erbyn ysgolion eraill rhanbarth Ceredigion. Chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda ac roedd hi'n hyfryd gweld y cyd-chwarae yn enwedig o gofio bod rhai aelodau ym Mlwyddyn 4. Chwaraewyd 6 gêm i gyd ac enillwyd 4 a cholli 2. Hoffwn i ddiolch o galon i'r rhieni fu'n cefnogi ac i Antony am ei gymorth gyda'r hyfforddi.

Awyr agored

Mae hi mor braf i weld y plant yn cael cyfleoedd i weithio y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac yn barod y tymor yma mae'r athrawon wedi manteisio ar bob cyfle posib i ddefnyddio'r safle gwych sydd gennym i ddatblygu a meithrin medrau'r plant mewn gwahanol brosiectau.

Parti 50

Ym mis Medi, bydd adeilad presennol yr ysgol yn 50 oed. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn bwriadu cynnal digwyddiad i gofnodi'r achlysur ar brynhawn dydd Gwener, Medi 13. Os oes gennych unrhyw luniau diddorol neu straeon difyr am y cyfnod yma gofynnwn yn garedig i chi gysylltu gyda ni os gwelwch yn dda: prif@talybont.ceredigion.sch.uk

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Llwyddiant i Licris Olsorts

Llongyfarchiadau gwresog i aelodau cwmni drama Licris Olsorts a'r Cynhyrchydd Sion Pennant, Bont-goch ar gipio'r wobwr am Gwmni Gorau'r Wyl yng Ngŵyl Ddrama Y Groeslon yn ystod mis Ebrill gyda'r ddrama gomedi *Y Fainc* o waith Emyr Edwards. Yn y cast roedd Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont, Sion Pennant a Glyn Jones, Commis Coch.



Cwmni Licris Olsorts a fu'n fuddugol yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon



Actorion ifainc yn cael hwyl arni

Hen Arian

Ioan Lord yn adrodd hanes hir a hynod mwyngloddio yn ardal Tal-y-bont



Perygl mawr mwyngloddio yn y twneli culion

Yn y flwyddyn 1568, dechreuodd gwmni o'r enw *Society of Mines Royal* agor cloddfeydd am fwyn arian a phlwm ar fynydd Alltcrib uwchlaw Tal-y-bont. Erbyn 1642, roedd lefel hir o'r enw 'Bushell's Great Drift' wedi cael ei yrru o'r llechwedd uwchlaw'r ysgol bresennol, 'two hundred fathoms thorow the mountain of Tallibont' er mwyn cyrraedd hen weithfeydd ger y grib. Fodd bynnag, nid oedd adroddwyr y *Society of Mines Royal* yn ymwybodol am wir hynafiaeth gweithfeydd mwyn ardal Tal-y-bont. Mi fydd yr erthygl hon yn edrych ar wybodaeth ddiweddar sy'n profi oedran y diwydiant hynafol hwn, a sut y datblygodd dros 4,000 o flynyddoedd hyd at ei gwmp ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Ceir ymysg y gweithfeydd mwyn hynaf yng Nghymru ar gyrion Tal-y-bont, ar y banc rhwng Erglodd a Phenpompren, ac yn Llangynfelyn. Cafodd samplau o olog eu canfod ar dipiau gweithfeydd Erglodd a Llangynfelyn yn 2005, ac fe ddyddiwyd rhain drwy ddulliau Carbon i dros 4,000 o flynyddoedd yn ôl, sef tua dechrau'r Oes Efydd. Roedd y golosg yn perthyn i ddulliau hynafol 'firesetting', ble roedd coelcerthi yn cael eu defnyddio i hollti'r graig drwy'r tymheredd uchel. Cafodd casgliad o 'gerrig llwyd y rhych', neu *stone hammers*, eu canfod yn ogystal, a oedd yn wreiddiol o'r arfordir ond wedi cael eu cario i safle'r gwaith yn y cyfnod hwnnw am eu bod yn fwy cadarn a chrwn i falu'r mwyn.

Mae adroddiad o'r *Mining Journal* ym 1869 yn cyfeirio at weithfeydd hynafol ger Penpompren hefyd:

'On Penpompren the ancient miners found an extraordinary network of veins, where, at the numerous points of junction, they found lead and copper... a large amount of ground has thus been opened by the ancients; but the great antiquity of their work is evident, from seeing large numbers of stone hammers mixed with the debris thrown up by more recent workmen. For many years past, in farming the lands of Mr. J. M. Davies, on each side of the high road between the villages of Taliesin and Tal-y-bont, large blocks of silver-lead ore have been found, some of them weighing hundredweights... A cart load of pure metal was taken at one time to the crusher of Allt-y-Crib mine by the farmer, which had been ploughed up from time to time; and the road-maker on another occasion took a wheel-barrow full of pure lumps to the Penpompren Mine, which he dug out of the ditch by the side of the road.'

Ffermwyr trawstrefol oedd mwynwyr yr Oes Efydd. Teithient o'r arfordir gyda chasgliad o gerrig llwyd y rhych i'r mynyddoedd a'r gweithfeydd mwyn yn ystod yr haf, gan ddychwelyd i'r arfordir gyda'r anifeiliaid am y gaeaf. Mae'n debyg eu bod yn amnewid y mwyn powdr gyda gweithwyr metel am arfau copr ac efydd.

Awgryma dystiolaeth diweddar fod y Rhufeiniaid hefyd wedi agor tipyn o fwynefeydd o amgylch Tal-y-bont a Thaliesin. Enw un siafft, sydd heddiw o dan glwstwr o dai yn Nhref Taliesin, oedd 'Pwll Roman', ond mewn gwirionedd saif gweithfeydd y Rhufeiniaid ychydig i'r de o'r fan hyn. Cafodd safle fwyndoddi (smeltio) Rhufeinig ei ganfod ar gyrion Cors Fochno yn 2004, sy'n awgrymu bod cryn dipyn o blwm wedi cael ei echdynnu o'r ardal yn y cyfnod cynnar wedi Crist.

Mae strwythur y mwyn o'r safle mwyndoddi yn eithriadol o debyg i'r wythien ger fferm Tanyrallt, ble mae clwstwr o hen weithfeydd ar safle Gwaith Tanyrallt. Yn Ionawr 2019, canfuwyd hen lefel gyntefig ar Fanc Tŷ Hen uwchlaw Tanyrallt. Lefel oedd hon nad oedd wedi cael ei archwilio ers nifer fawr o flynyddoedd ac sydd wedi cael ei dorri gan offer llaw yn unig, ymhell cyn dyddiau powdr du. Mae'r lefel hon, rhan o waith Llwynadda, yn debyg iawn i'r lefelau Rhufeinig yn Nolaucothi, ac mae'n bosib ei fod yn dyddio o'r Oesoedd Canol neu'n gynharach. Mae ffurf arch gul arni, er mwyn lleihau'r ymdrech i greu twnnel digon mawr i alluogi un person i wthio'i ffordd drwyddi ar y tro. Mae'r llawr ond yn chwe modfedd o led, a'i uchder yn llai na phum troedfedd.

Darganfyddiad mawr arall a wnaed ar ddechrau 2019 oedd canfyddiad rhaw bren gyntefig yn un o lefelau Penpompren. Mae'r rhaw hon yn bren i gyd, a rhyw dair troedfedd o hyd. Mae dyddio Carbon wrthi yn mynd ymlaen ar hyn o bryd, ond mae'n debyg iddi fod yn Ganoloesol neu'n gynharach o bosib.

Erbyn cyfnod y *Society of Mines Royal*, a'i ffurfiwyd gan y



Gyrru'r mwyn i'r wyneb wedi dydd o dan ddaear



Carreg o fwyn arian

Frenhines Elizabeth I ym 1568, roedd diddordeb mawr yn yr arian sy'n ffurfio gyda'r plwm ym mherfeddion Alltcrib. Agorwyd rhwydwaith helaeth o siafftiau a lefelau i echdynnu'r arian, a'i anfon i Gastell Aberystwyth wedi 1642 er mwyn bathu'r arian i greu ceiniogau. Safleoedd arall yn yr ardal a oedd yn cael eu gweithio gan y *Society of Mines Royal* oedd gwaith yr Hafan, ar ben uchaf Cwm Tŷ Nant, Cwmsymlog, Cwmerfyn, Goginan a Banc y Darren.

Cafodd nifer o'r lefelau yn ardal Tal-y-bont yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg eu gyrru o dan arweinyddiaeth mwynwyr o'r Almaen, a ddaeth o ardal yr Hartz i Dal-y-bont er mwyn datblygu'r gweithfeydd. Roedd gan un lefel ar fynydd Alltcrib y dechneg Almaenaid o awyru, sef pibell blwm wedi ei osod ar hyd y llawr i'r pen pellaf, gyda megin fawr yn y fynedfa yn chwythu awyr ffres i ben draw'r gwaith.

Yn y ddeunawfed ganrif, gweithiwyd tua ugain o weithfeydd mwyn yn ardal Tal-y-bont a Llangynfelyn, gan gynnwys Alltcrib, Llwynnadda, Cwm Leri, Tanyrallt, Erglodd, Penpompren, Penybanc, Pwll Roman, Brynarian, Dolclettwr, Pensarn a Llangynfelyn. Cafwyd nifer o filoedd o dunelli o blwm a sinc, ac ychydig o arian a chopr ohonynt, ac fe adeiladwyd nifer fawr o rodau dŵr er mwyn tynnu'r dŵr allan o'r siafftiau dyfnion ac i yrru'r peiriannau malu.

Mudodd gannoedd o weithwyr i'r ardal o Gernyw, Dyfnaint

ac Efrog, gan achosi cynnydd mewn capeli Wesleidd a oedd gynt yn gwbl estron i'r ardal. Cwmpodd bris y mwyn wedi 1870 o ganlyniad i fewnforion rhad o dramor, a'r gwaith olaf i gau oedd un o'r olaf yng nghanolbarth Cymru – gwaith Penrhyngerwin neu'r Loveden – ger y briffordd i'r gogledd o Dre'r Ddôl. Caedd hwn tua 1940 o ganlyniad i brennau'r siafft yn mynd ar dân, ond erbyn hyn roedd pob safle arall yn yr ardal wedi cau.

Heddiw, nid oes fawr ddim o olion i'w gweld o'r diwydiant 4,000 o flynyddoedd oed yn yr ardal, ond mae'r hanes yn fyw mewn hen luniau, adroddiadau a'r rhwydwaith o dwneli tanddaearol llaith sydd yn dal i ddiferi atgofion.

Ceir mwy o wybodaeth am hanes cymdeithasol a diwydiannol yr hen weithfeydd mwyn yn fy llyfr *Rich Mountain of Lead: The Metal Mining Industry of Cwm Rheidol and Ystumtuen* a gyhoeddwyd yn 2018, ag sydd ar werth yn siop Rheilffordd Cwm Rheidol yn Aberystwyth. Rwyf wrthi yn ysgrifennu llyfrau pellach ar y diwydiant mwyn yng ngweddill gogledd Ceredigion, ac os oes gennych unrhyw wybodaeth bellach neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi ar rheilffordd@gmail.com.

Ioan Lord

Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Llongyfarchiadau mawr i Bedwyr Siencyn a William Jones am ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth Fferm Ffactor Iau Diwrnod Maes CFFI Cymru ar ddiwedd mis Ebrill. Ar ddiwedd diwrnod prysur o gystadlu daeth CFFI Ceredigion yn bedwerydd.

Mae hwn yn argoeli i fod yn dymor prysur iawn i aelodau'r Clwb. Mae'r paratoi a'r ymarfer eisoes wedi dechrau ar gyfer Chwaraeon y Sir, y Rali a Gemau Ucheldir Cymru.



FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN

Barbeciw yn y Cartref

Nos Wener

Mehefin 21

6.30 o'r gloch

Mynediad £5 i oedolion

CINIO CAWL

Neuadd Goffa Tal-y-bont

DYDD SUL, 16 MEHEFIN

12.00 – 2.00

Elw tuag at Apêl
Madagascar

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

CYMDEITHAS TREFTADAETH LLANGYNFELYN

Colin Laker

Rorert Owen,

Y Drenewydd

7.30 Nos Fawrth

28 Mai 2019

Llanfach Taliesin

HUW LEWIS
CANOLFAN M.O.T.
M.O.T. CENTRE
Glanyrafon
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Ar brynhawn braf o wanwyn ar 9 Ebrill, aeth un ar ddeg o'r aelodau i fwynhau te prynhawn yn Llety Ceiro, Llandre. Estynnodd Eiriona groeso i bawb, a chroeso arbennig i'r gŵr gwadd am y prynhawn, sef y Parchedig Elwyn Pryse. Ar ôl mwynhau'r wledd ar y byrddau, bu ef yn ein diddanu drwy adrodd storïau difyr a hwyliog am ei ddyddiau cynnar yn Ysbyty Ystwyth a Chwmystwyth. Roedd pawb wedi cael prynhawn wrth eu bodd, ac roedd yn ddiweddglo hyfryd i dymor Cymdeithas y Chwiorydd am eleni.



Yr aelodau tu allan i Llety Ceiro

Teyrnged

David Owen Evans

Ar Ddydd Gwener 5 Ebrill bu farw Dai yn Ysbyty Bronglais gyda'i ferched Nicola ac Emma wrth ei ochr.

Ganwyd Dai yn Nhaliesin yn fab i Tom a Bessy Evans. Roedd ganddo un chwaer – Anne. Addysgwyd yn Ysgol Llangynfelyn ac Ysgol Sir Ardwyn, Aberystwyth. Ar ôl gadael yr ysgol bu'n gweithio yn Siop Temperance, Taliesin, cyn mynd i werthu yswiriant, ac yna gweithio fel periannydd ym Modurdy'r Gwalia yn Aberystwyth. Roedd Dai yn hoff iawn o chwaraeon yn arbennig pêl-droed, golff a dartiau.

Priododd Sandra yn 1965 gan symud i fyw i Faes-y-deri, Tal-y-bont. Ganwyd dwy o ferched iddynt – Nicola ac Emma.

Yn ddiweddarach aeth Dai i weithio fel peiriannydd i gwmni Powergen yng Nghwm Rheidol. Bu ef, a'i frawd-yng-nghyfraith Ron, hefyd yn gweithio tu ôl y bar yn Y Llew Gwyn a'r Llew Du, Tal-y-bont am nifer o flynyddoedd.

Newidiodd bywyd Dai yn llwyr yn 1989 yn dilyn ei daro gan strôc. Cafodd bob gofal gan nyrsys Borth, ei briod Sandra hyd at ei marwolaeth sydyn hithau, a chefnogaeth dda gan ei ferched a'i gymdogion Barbara a Pam.

Ganwyd dwy ferch i Nicola – Tia a Freya – a nhw oedd kannwyll llygaid eu Tad-cu.

Yn 2015 symudodd Dai i Gartref Aber-mad lle derbyniodd eto bob gofal.

Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar Ddydd Gwener 12 Ebrill dan ofal Y Parchg Richard H. Lewis, Bow Street. Dymuna Nicola ac Emma ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob cydymdeimlad ac am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at waith Nyrsys Y Borth.

Awdur Lleol

Mae Rhiannon Lloyd-Williams yn byw yn Llangynfelin ac mae wedi ysgrifennu drama “Yr Hwyaeden” sy’n cyfleu rhai o'r anhawsterau ac amgylchiadau anodd sy’n wynebu dynes awtistig yn y byd sydd ohoni. Mae'r ddrama ar daith mewn canolfannau yn Lloegr ar hyn o bryd. Mae Rhiannon hefyd yn barddoni, a bu'n fardd preswyl mewn prosiect a oedd yn rhedeg yn Rhydychen drwy gydol mis Ebrill. Prosiect oedd hwn yn cynnwys criw cymysg o bobol, gyda rhai yn dioddef o awtistiaeth yn eu plith.

Mae hi hefyd yn siarad yn gyhoeddus ar y pwnc “Awtistiaeth”, a bydd yn trafod hyn yng Ngŵyl y Gelli eleni. Mae ganddi weithdy i helpu pobol â phroblemau yn y maes yma, ac mae'n ddiddorol iawn gweld beth sydd ganddi i'w ddweud yn ei blog cyfredol.

Diolch Rhiannon am fod yn flaengar ac yn barod i helpu rhai sydd yn amal yn byw mewn byd dryslyd iawn, a neb yn deall eu hanghenion.



STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDOSODWYR
IN PEOPLE | Mewn Poil

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

LRJ

**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Ebrill

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Ebrill y Cyngor Cymuned yn y Neuadd Goffa ar Nos Lun, 29 Ebrill 2019 gyda phob un o'r Cynghorwyr yn bresennol. Estynodd y Cadeirydd, y Cyng Enoc Jenkins groeso cynnes i bawb i'w gyfarfod olaf fel Cadeirydd y Cyngor.

Meinciau Coll

Yr oedd y Cynghorwyr i gyd wedi eu synnu i glywed fod un o feinciau y Cyngor wedi diflannu o'r ffordd gefn rhwng Tal-y-bont a Staylittle. Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn adroddiad oddi wrth y Cyng Bleddyn Huws ar Nos Fercher, 17 Ebrill 2019, fod y fainc wedi cael ei difrodi (gw. y llun). Yr oedd dau ben concriid

i'r fainc wedi diflannu a'r styllod yn gorwedd mewn pentwr ar y ddaear. Erbyn amser cinio y diwrnod canlynol cafwyd dau adroddiad fod y styllod wedi diflannu hefyd.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw'r heddlu. Mynegwyd siom gan y Cynghorwyr i gyd gan y bydd angen defnyddio arian y trethdalwyr lleol i archebu mainc newydd ar gyfer y lleoliad defnyddiol a phoblogaidd yma. Cytunwyd hefyd gwenud archwiliad o'r meinciau eraill o fewn y ardal y Gymuned.

Materion y Fynwent

Cafwyd diweddariad ar faterion y fynwent. Cadarnhaodd y Cyng Nia Richards fod problemau yn parhau gyda phobl yn gadael hen flodau wrth y fynedfa i'r fynwent. Yr oedd yn

siomedig i glywed fod arwydd dros dro yn gofyn i'r cyhoedd ddefnyddio'r bin yn y lloches parcio neu fynd a sbwriel a hen flodau adref, wedi cael ei rwygo i lawr. Cytunwyd y bydd yn rhaid arch ebu arwydd gwell ar gyfer y tymor hir.

Cynllunio

Trafodwyd un cais i greu tri fflat uwchben yr hen Siop Spar. Yn dilyn trafodaeth hir cytunwyd i fynegi pryder fod y cais yn cynnwys gor-ddatblygiad yn y safle yma wrth ystyried y problemau parcio. Cytunwyd argymhell fod yr adeilad ddim ond addas ar gyfer un fflat uwchben y siop.

Materion Ariannol

Cyflwynodd y Clerc y fantolen ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol ac eglurodd fod Mr

Ieuan Morgan wedi cytuno i helpu gydag archwiliad o'r ffigyrau i wneud yn siwr fod popeth yn drefnus. Cadarnhaodd y Clerc ei fod yn gobeithio dod a ddiweddariad ariannol i bob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ariannol newydd.

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Atgoffwyd y Cynghorwyr gan y Clerc y bydd y cyfarfod misol ym Mis Mai hefyd yn Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ac y bydd rhaid cadarnhau Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd. Cytunwyd y bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cychwyn am 7:00yh ar Nos Lun, 20 Mai 2019, yn yr ystafell fach gefn ar waelod y Neuadd Goffa. Mae yna croeso i'r cyhoedd dod i wrando ar fusnes y Cyngor.

Rab Jones (Clerc)



Y fainc a chwalwyd



Merched y Wawr, Tal-y-bont Cofio Gwenllian

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill ar nos Lun, Ebrill 15^{ed} a'r noson yng ngofal Megan Mai ac Elizabeth Evans. Trafodwyd ychydig faterion yn ymwneud â gweithgareddau'r mudiad yn rhanbarthol a chenedlaethol i gychwyn gan nodi bod y rhanbarth yn rhoddi'r ail a'r drydedd wobr yn y gystadleuaeth Parti Llefaru agored yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn 2020.

Llongyfarchwyd Falyri Jenkins ar ennill medal Syr TH Parry-Williams yn Eisteddfod Llanrwst ym mis Awst eleni.

Yna drwy gyfrwng sleidiau cawsom ein tywys ar daith i Sempringham gan Megan Mai – taith a drefnwyd ganddi hi ac Ada Evans, Bro Ilar ym Mis Mai 2018. Gadael Ceredigion a theithio i Gilmeri, yna i Abaty Cwm Hir ac ymlaen i Peterborough am ddwy noson i ymweld â Sempringham a chofeb Gwenllian. Roedd yn amlwg i'r daith fod yn un diddorol a llwyddiannus a phawb wedi mwynhau'r tridiau. I gloi'r cyfan soniodd Elizabeth am yr her roddwyd i aelodau Merched y Wawr nôl yn 1996 i gyfeithu geiriau Toby Griffin "Gwenllian's Lament" i'r Gymraeg. Ei chyfieithiad hi ddewisiwyd a therfynwyd y noson drwy wrando ar lais hudolus Siriol Williams o Gaerdydd yn canu'r fersiwn Gymraeg o "Erddigan Gwenllian".

I gloi'r noson cafwyd paned a sgwrs. Bydd ein cyfarfod nesaf ar nos Lun, Mai 20^{fed} am 7.30.



Cofeb Gwenllian

Falyri Jenkins yn Ennill Medal Goffa Syr TH Parry-Williams, 2019

Falyri Jenkins o Dal-y-bont, Ceredigion yw enillydd Medal Goffa Syr TH Parry-Williams er clod eleni. Cyflwynir y Fedal yn flynyddol i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad gwirioneddol yn eu hardal leol, gyda phwyslais arbennig ar weithio gyda phobl ifanc.

Yn wreiddiol o ardal Sling ger Bethesda, graddiodd Falyri yn y Coleg Normal, Bangor cyn cychwyn ei gyrfa ym myd addysg yn ardal Wrecsam. Symudodd i ardal Aberystwyth yn 1974, ac mae wedi bod yn hynod o weithgar yn yr ardal ers hynny, gan ymgartrefu yn Nhal-y-bont yn 1978.

Mae'n athrawes o'r radd flaenaf yn ôl ei chydweithwyr – yn wir, fe'i disgrifiwyd ar lafar fel 'chwip o athrawes' gan un o arolygwyr ESTYN. Cafodd nifer fawr o blant a phobl ifanc ei bro eu hysbrydoli gan Falyri, yn enwedig ym maes cerddoriaeth, wrth iddi hyfforddi unawdwyr, partion, corau ac offerynwyr lu am flynyddoedd lawer.

Cynhyrchodd nifer o lyfrau cerddoriaeth deniadol ar gyfer cylchoedd meithrin ac ysgolion cynradd yn ystod ei gyrfa, ac yn ddi-os, mae cenedlaethau o blant o bob cwr o Gymru wedi mwynhau canu caneuon o lyfrau megis Caneuon Bys a Bawd a'r gyfrol enwog Clap a Chân i Dduw, sef casgliad o emynau modern ar gyfer ysgolion ac ysgolion Sul.

Roedd yn un o sriptwyr y rhaglen deledu i blant meithrin 'Ffalabalam' yn yr '80au ac hefyd yn aelod o'r grŵp gwerin Seithenyn.

Bu ei chyfraniad i fydd addysg yn ei hardal ac yn genedlaethol yn sylweddol, felly hefyd ei gwaith gwirfoddol ar lawr gwlad yn ardal Ceredigion. Yn 2004 fe'i henwebwyd yn llwyddiannus am Wobr Dysgu Cenedlaethol am ei chyfraniad i'r ysgol a'r gymuned yn Nhal-y-bont. Bu'n cefnogi gwaith ieuenctid yn Ysgol Sul Bethel, yn gwirfoddoli gyda'r Cylch Meithrin ac yn gweithio'n ddiwyd gyda'r Clwb Ieuenctid Cristnogol.

Bu'n un o hoelion wyth y papur bro lleol, Papur Pawb, yn Nhal-y-bont am flynyddoedd, fel cyd-olygydd gyda'i gŵr, Gwyn.

Mae'n parhau i gyd-olygu rhifyn misol bob blwyddyn.

Yn gefnogwr brwd o fyd y ddrama, cydiodd Falyri yn y cyfle i wahodd Theatr Bara Caws i Dal-y-bont flynyddoedd yn ôl ac erbyn heddiw, mae'r Neuadd Goffa'n croesawu'r cwmni'n rheolaidd, gan sicrhau bod modd i drigolion lleol fwynhau perfformiadau theatr yn eu cymuned, gyda Falyri yng ngofal hyrwyddo'r sioe a gwerthu tocynnau bob tro.

Yn ddi-os, mae'i brwdfrydedd a'i chyfraniad yn crisialu amcanion Cronfa Goffa Syr TH Parry-Williams, a thrwy hynny, mae'n llawn haeddu derbyn y Fedal er clod eleni.

Bu Syr TH Parry-Williams yn gefnogwr brwd o'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn Awst 1975, yn dilyn ei farwolaeth ychydig fisoedd ynghynt, sefydlwyd cronfa i goffáu'i gyfraniad gwerthfawr i weithgareddau'r Eisteddfod. Gweinyddir y gronfa gan Ymddiriedolaeth Syr Thomas Parry-Williams.

Bydd Falyri Jenkins yn derbyn y Fedal ar lwyfan y Pafiliwn yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy a gynhelir o 3–10 Awst.

Am ragor o wybodaeth am yr Eisteddfod ewch i www.eisteddfod.cymru.



Falyri Jenkins

Buddugwyr Eisteddfod Ysgol Tal-y-bont



Ffwrnais

Eleni eto, mae'r gwanwyn wedi cyrraedd yn ei holl ysblender. Mae'r clychau glas a'r briallu yn werth i'w gweld yn eu holl ogoniant. Beth well i lonni'r galon na chlywed y gog yn canu a'i holl egni yng nghoed Foel Fach a'r fore Mercher, 24^{ain} o Ebrill.



Eglwys St. Pedr, Elerch

Festri'r Pasg

Cynhaliwyd Festri'r Pasg a chyfarfod blynyddol y Cyngor Plwyfol Eglwysig yn dilyn gwasanaeth Cymun Bendigaid Sul y Pasg ar 2 Ebrill.

Ail-etholwyd Dewi Evans yn warden y bobl ac Emyr Davies yn warden y ficer. Bydd Richard Huws yn parhau fel ysgrifennydd y Cyngor Plwyfol ac Emyr Davies yn drysorydd.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



Dod â gigs yn ôl i Dal-y-bont



Y band Bitw yn chwarae yn y Neuadd Goffa

Roedd hi'n hyfryd gweld y Neuadd Goffa yn llawn yn Nhal-y-bont nos Sadwrn yr 20^{fed} o Ebrill ac yn llawn pobol o bob oed yn mwynhau gig. Dau fand – sef Bitw a Meilyr Jones, a DJ Sgilti. Meilyr Jones yn fachgen lleol – yn wreiddiol o Bow Street, yn gyn aelod o Radio Luxembourg a Race Horses, a nawr yn creu enw rhyngwladol i'w hun gyda'i fand.

Trefnwyr y noson oedd Elan Elidyr, Bethan Ruth a Marged Lois – y dair wedi dod at ei gilydd i ffurfio cydweithfa greadigol newydd Gwylan ac yn awyddus i drefnu digwyddiadau celfyddydol gwahanol yng nogledd Ceredigion. Eu hail ddigwyddiad oedd y gig yn Nhal-y-bont.

“Roedd yn gyfle i bobl yr ardal glywed gwaith diwedddara y perfformiwr gwych o Bow St – Meilyr Jones” meddai Elan Elidyr sy'n

Clinicar o Sesiwn!

Er gwaetha'r gwyliau, er gwaetha'r tywydd giami, er gwaetha'r holl atyniadau eraill yn yr ardal yr un noson, daeth cynulleidfâ deilwng ynghyd i'r Llew Du nos Wener 26^{ain} o Ebrill i fwynhau clinicar o sesiwn yng nghwmni dau gerddor hynod ddawnus a difyr.

Pwy na fyddai'n cael ei swyno gan ganeuon melodig a melfedaidd Mei Gwynedd, perfformiwr o fri ers dyddiau Beganifs yn y 1990au drwodd i ymddangos fel prif gitarydd presennol band Geraint Jarman ymysg llawer o brosiectau eraill. Yn feistr ar ei gamp, mae pob cân o'i eiddo yn gafael yn syth a melys moes mwy bia hi wedyn. Mae Mei'n foi andros o ddiffuant a hawddgar ac mae'r priodweddau hyn yn dod i'r fei yng ngeiriau telynegol ac alawon hudolus ei ganeuon hefyd.

Yn ategu crefft gyfareddol y cyfansoddwr o Gaerdydd (Waun-fawr, Gwynedd gynt) roedd Dilwyn Roberts-Young o Aberystwyth (Pwllheli gynt), chwip o organydd ceg a lwyddodd drwy'i gyfeiliant cadarn a diymffrost i ychwanegu rhywbeth arbennig iawn at y cyfanwaith gan ddangos pa mor hardd y gall nodau dolefus yr organ geg swnio yn y dwylo iawn. Sesiwn Nos Wener ar ei gorau unwaith eto! Peidiwch â cholli'r un!

Diolch i bawb a ddaeth ynghyd, staff y Llew Du am eu croeso arferol ac i gynllun Noson Allan am ei gefnogaeth.

Martin Dafis



Mei Gwynedd a Dilwyn yn chwarae yn Sesiwn Nos Wener

byw yn Nhal-y-bont, “a hefyd yn gyfle i ni gael amrywiaeth o bethau yn digwydd yn y Neuadd yma sydd â chymaint o adnoddau. Diolch i Bwyllgor y Neuadd am ein helpu ac am fod yn barod i ymddiried y byddai popeth yn gweithio'n iawn.”

Roedd y trefnwyr yn ymwybodol bod yna draddodiad o gynnal gigs yn Neuadd Tal-y-bont gyda pobol lleol yn cofio cyngherddau mawr y 70au a'r 80au a channoedd yn tyrru i'r pentre i weld bandiau megis Edward H. “Rwy'n credu i ni greu ychydig o naws y nosweithiau hynny yn y gig yma”, meddai Marged Lois ar ran Gwylan, “er



Meilyr Jones

nad ydw i'n cofio unrhyw rai o'r cyngherddau yna – cyn fy ngeni!”

Gobeithio mai ond cychwyn oedd y gig yma ac y daw mwy o rai tebyg i'r Neuadd gan i nifer o'r gynulleidfâ ddweud ar y noson cymaint yr oedden nhw yn hoffi naws y noson a natur y lleoliad.

Catrin M.S. Davies



Band Meilyr Jones gydag Elan Elidir o Dal-y-bont

Y LLEW GWYN

Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

CHWARAEON

Pêl-droed

Daeth y tymor i ben i Glwb Pêl-droed Tal-y-bont gyda buddugoliaeth o bedair gôl i dair yn erbyn Eilyddion y Brifysgol. Y sgorwyr oedd Charlie Turner, Dylan Benjamin, Jamie Barron ac Osian Thomas. Mae hwn y golygu bod y tîm yn gorffen yn bedwerydd yn y cynghrair, safle boddhaol o ystyried pa mor ifanc yw'r rhan fwyaf o'r chwaraewyr.

Yn gynharach yn y mis, rhoddwyd cosfa i eilyddion Machynlleth o bum gôl i ddim. Y sgorwyr y tro hwn oedd Chris Jones, Clint Middleton, Barry Southgate, Ryan Gillmore a Harry Whalley. Uchafbwynt y gêm oedd gweld yr hen seren Wyn Benjamin yn dod ar y cae fel eilydd gan ymuno gyda'i fab Dylan am chwarter awr olaf y fuddugoliaeth.



Harry Whalley yn cael y gorau o amddiffynwyr Bow Street (llun drwy gareidgrwydd Bev Hemmings)

Hefyd yn y mis curwyd Eilyddion Bow Street 3-2 a Llanilar 2-1. Er bod disgwyl i'r clwb barhau i redeg tîm y tymor nesaf, mae'n siomedig iawn na fyddant yn chwarae yn y pentref am flwyddyn arall o leiaf. Mae pryder am dymor hir y clwb yn parhau felly ac mae ond gobeithio y daw tîrfeddiannwr hael lleol i'r golwg i gynnig maes chwarae newydd i'r pentref.



Y tad a'r mab: Wyn a Dylan Benjamin

Beicio

Mae Gruff Lewis, perchennog Caffi Gruff yn Nhal-y-bont, yn wynebu mis Mai prysur iawn. Cynhaliwyd Ras Fawr Swydd Efrog o'r 2^{il} hyd y 5^{ed} o Fai, a bu Gruff yn cystadlu fel aelod o dîm *Ribble*. Dangoswyd y ras yn fyw ar y teledu, sianel ITV4 o 1.30 hyd 4.30 bob prynhawn.

Hefyd bydd Gruff yn sylwebu ar ras *Giro D'Italia*. Mae hon yn ras bwysig iawn yn yr Eidal a gellir dilyn yr holl gymalau ar S4C bob prynhawn rhwng 1.30 a 4.30 gyda Gruff yn sylwebu. Mae ras yr Eidal yn para tair wythnos, o'r 11^{eg} o Fai hyd yr 2^{il} o Fehefin. Ond er gwaetha'r prysurdeb, bydd Caffi Gruff yn dal ar agor drwy gydol Mis Mai i gynnig paneidiau a theisennau blasus. Dewch yno i'w gefnogi hefyd: mae'r caffi'n gaffaeliad gwych i'r pentre.



Mae croeso cynnes i bawb yng Nghaffi Gruff.

argraffu da
am bris da



ylolfa holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolfa.com

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk